

Crynodeb o'r gwaith a wnaed

Cam 1: Cyn y cyfnod clo

- Cytuno ar strategaeth gyfathrebu gyda Chyfarwyddwyr y chwe awdurdod lleol.
- Galwadau ffon rheolaidd i bob ysgol gan yr YCG i gefnogi Penaethiaid i gadw ysgolion ar agor a lleddfu pryderon.
- Lleoli staff GwE mewn ysgolion ac UauCD lle bo angen, i'w cefnogi i aros ar agor.
- Lleoli staff GwE yn yr awdurdodau i'w cefnogi gyda gwasanaethau hanfodol.
- Timau GwE yn uwchlwytho adnoddau cychwynnol i Google Classroom dynodedig i gefnogi ysgolion gyda'r cynllunio cychwynnol ar gyfer dysgu o bell.

Cam 2: Cefnogi ysgolion ar ddechrau'r cyfnod clo

- Cadw cysylltiad rheolaidd ag ysgolion er mwyn sicrhau iechyd a lles staff a disgyblion.
- Parhau i gefnogi ysgolion unigol neu Hybiau pan fu prinder staff.
- Uwchsgilio staff GwE ar gyfer dysgu digidol.
- Datblygu canllawiau, cymorth ac adnoddau dysgu i ysgolion er mwyn dechrau cefnogi dysgu o bell mewn ysgolion.
- Cefnogi ysgolion gyda Dysgu Digidol a chynhyrchu fideos cymorth defnyddiol fel y gall athrawon ddatblygu ac amrywio eu methodoleg dysgu o bell.

Cam 3: Dysgu o Bell (DoB)

- Datblygu canllawiau dysgu o bell i ysgolion ar y cyd â rhanbarthau eraill.
- Ar y dechrau, gosod deunyddiau priodol ar Google Classroom ynghyd â syniadau i bob Cyfnod Allweddol gyfeirio atyn nhw.
- Cymorth i alluogi arweinwyr ac athrawon i weithredu yn unol ag arfer orau wrth greu a defnyddio adnoddau dysgu ar-lein.
- Datblygwyd modelau DoB effeithiol yn GwE. Fe'u rhannwyd yn genedlaethol a'u defnyddio ym mhob rhanbarth.
- Anogwyd ysgolion, arweinwyr ac athrawon i rannu adnoddau ar draws y system. Anogwyd ysgolion i ddefnyddio Hwb i rannu eu dulliau, eu cynlluniau a'u hadnoddau dysgu.
- Sicrhau y caiff pob dysgwr fynediad teg i ddysgu ac adnoddau dysgu.
- Pob YCG i ymgymryd â Dysgu Proffesiynol priodol o ran DoB effeithiol.

Cam 4: Cefnogi ysgolion i ailagor

- Gweithio ar y cyd â'r chwe Awdurdod Lleol.
- Sefydlu llinellau cyfathrebu clir gyda rhanddeiliaid allweddol.
- Cyfarfodydd wythnosol gyda Chyfarwyddwyr a deilyddion portffolio Addysg.
- Creu Fframwaith Polisi a Dangosfwrdd.
- Modelu asesiad risg ar gyfer pob sector.
- Adnabod rolau rhanbarthol a lleol i gefnogi dysgwyr bregus.
- Uwchsgilio staff GwE i gefnogi arweinyddiaeth ysgol yn y meysydd hyn.

Cam 5: Dysgu Cyfunol

- Uwchsgilio tîm GwE gyda gwaith ymchwil rhyngwladol ar ddysgu cyfunol.
- Cyfuno CiG yn naturiol ag arferion presennol.
- Unedau amlddisgyblaethol i atgyfnerthu sgiliau a'u datblygu.
- Graddau Asesu Canolfannau / Cymwysterau / Arholiadau

Cam 6: Cyflymu Dysgu / Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau (RRRS)

- Dull Cyflymu Dysgu rhanbarthol / Recriwtio, Adfer, a Chodi Safonau - cynnwys lles Corfforol; Lles emosiynol a llythrennedd a rhifedd.
- Dull yn seiliedig ar dystiolaeth ar sail gwaith ymchwil.
- Y triongl angen - GwE yn arwain y cyffredinol, GwE ac AauLI y cynnig wedi'i dargedu ac AauLI yn arwain yr aciwt.

Cam 7: Dyfnhau'r cydweithredu a datblygu rhwydweithiau cadarn

- Gweithio o fewn cynlluniau cydweithio neu gyfleoedd er mwyn ffurfio cynghreiriau i fynd i'r afael â'r bylchau yn y ddarpariaeth, a ffyrdd eraill o ddarparu er mwyn bodloni unrhyw senarios clo yn y dyfodol.
- Clystyrau a chynghreiriau i adnabod lefel y cymorth a fyddai'n briodol, ac a fyddai'n ofynnol, ar gyfer y gwahanol senarios.
- Hwyluso ysgolion i gefnogi ei gilydd yn ystod yr argyfwng hwn. Pob clwstwr neu gynghrair yn cefnogi ei gilydd drwy rannu cynlluniau ac adnoddau fel y gall ysgolion ymateb i wahanol senarios gweithredol y gallent ganfod eu hunain ynddyn nhw.
- Bydd yr adnoddau hyn yn cael eu coladu yn rhanbarthol, gan sicrhau banc sylweddol o adnoddau o safon uchel i bob ystod oedran yn system ysgolion gogledd Cymru.
- Nod y gwaith yw lleihau llwyth gwaith a'r pwysau ar ysgolion.
- Darparu Cynnig Proffesiynol wedi'i symleiddio, i gefnogi clystyrau ac ysgolion unigol.